

Cais am amrywio trwydded safle er mwyn pennu unigolyn yn oruchwylydd penodedig y safle o dan Ddeddf Trwyddedu 2003

Cyn llenwi'r ffurflen hon darllenwch y canllawiau ar ddiwedd y ffurflen a'r canllawiau esboniadol sy'n cyd-fynd â hi.

Os ydych yn cyflwyno cais yn electronig ar-lein:-

1. Lawrlwythwch y ffurflen gais a'r ffurflen ganiatâd gan ddefnyddio'r dolenni ar y dudalen we: <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/trwyddedu-a-hawlenni/alcohol-ac-adloniant/trwydded-safle/>
2. Cyflwynwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau, y ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi a thalu'r ffi a bennwyd o £23 gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein.
3. Postiwch y Drwydded Safle, Crynodeb o'r Drwydded Safle a'r ffurflen ganiatâd wreiddiol wedi'i llofnodi i'r Adain Drwyddedu (cyfeiriad uchod).
4. Yr Adain Drwyddedu sy'n gyfrifol am anfon copi o'r cais ymlaen at Swyddog Trwyddedu yr Heddlu.
5. Rhwch gopi o'r ffurflen hon i oruchwylydd presennol y safle, yr un a enwir yn y drwydded.

Os ydych yn cyflwyno copi caled o'r cais:-

1. Anfonwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau i'r Adain Drwyddedu gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod ynghyd â'r canlynol:-
 - Y ffurflen ganiatâd wedi'i chwblhau gan oruchwylydd arfaethedig y safle.
 - Y ffi a bennwyd sef £23. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin".
 - Y drwydded safle bresennol, dogfen grynodol y drwydded neu'r rhan berthnasol ohoni neu esboniad ynghylch pam na ellir ei chyflwyno.
2. Anfonwch gopi o'r cais at **Swyddog Trwyddedu yr Heddlu:-**
Gorsaf yr Heddlu, Heol y Ffowndri, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 2LS
3. Rhwch gopi o'r ffurflen hon i oruchwylydd presennol y safle, yr un a enwir yn y drwydded.

Ni fernir bod cais yn gyflawn tan fod holl elfennau'r cais wedi dod i law'r Awdurdod. Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llawysgrifen, a fyddoch cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio priflythrennau. Ym mhob achos gofalu'ch fod eich atebion o fewn llinellau'r blychau ac wedi'u hysgrifennu neu eu teipio mewn inc du. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen. Mae'n bosibl y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau er gwybodaeth.

Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn cawn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

For further information and advice see the Council's website

<http://www.carmarthenshire.gov.wales/home/business/licensing-permits/alcohol-entertainment/premises-licence/>